# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 30 Hydref 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Mabon Ap Gwynfor, Alan James, Peter Scott a Graham Timms

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus (GB) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW) a Swyddog Cyllid/ A. 151 (RW); Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael (HM); Rheolwr Contractau a Pherfformiad (PB); Rheolwr Cynnal Systemau (JH) a'r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## MATER O HYSBYSIAD

Roedd y Cynghorydd Richard Mainon yn falch i longyfarch y Tîm Cyfathrebu a Marchnata ar ennill Gwobr Aur y Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus. Roedd y wobr yn cydnabod rhagoriaeth mewn cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu a thalodd y Cynghorydd Mainon deyrnged i ymroddiad y tîm, yn arbennig mewn perthynas â’r cyfathrebu adeg yr eira, gan sicrhau negeseuon clir ac ymdrechion i gyfathrebu testunau. Estynnodd yr Arweinydd longyfarchiadau’r Cabinet i’r tîm ar eu llwyddiant haeddiannol.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem Rhif 8 ar y Rhaglen: Fframwaith Contract Rhwydwaith TGCh Ysgolion am ei fod yn Llywodraethwr ac yn Rhiant.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018 i'w cymeradwyo.

**Materion yn Codi –** Tudalen 12, Eitem Cofnod 12: Darpariaeth Safle Sipsiwn a Theithwyr – gofynnodd y Cynghorydd Peter Scott i'r Cabinet newid eu penderfyniad ynghylch y cynnig i leoli'r safleoedd yn Green-gates Farm East, Llanelwy a dod o hyd i safle yn sgil yr ymchwydd o wrthwynebiad lleol i'r cynnig. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth gynhwysfawr ar y pwnc gan ystyried y gwaith roedd y craffu wedi ei wneud a chadarnhaodd na fyddai'r penderfyniad yn newid. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd fod y Cabinet wedi gwneud ei benderfyniad ar 15 Hydref 2018 ar ôl i'r penderfyniad blaenorol gael ei alw i mewn ac nid oedd unrhyw broses fewnol bellach i newid y penderfyniad hwnnw. Byddai'r safleoedd hynny bellach yn destun ymgynghoriad blaengynllunio a byddai'r cyhoedd ac eraill yn gallu cyfrannu at y drafodaeth honno fel rhan o'r broses gynllunio statudol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 UNED CAFFAEL CYDWEITHREDOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i barhau â'r trefniant caffael cydweithredol presennol gyda Chyngor Sir y Fflint am dair blynedd arall. Cyflwynodd y Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael a oedd wedi bod yn y swydd ers mis Medi 2017.

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo uno gyda Chyngor Sir y Fflint ym mis Mai 2014 i greu Uned Caffael Cydweithredol gyda Sir Ddinbych yn gyflogwr er mwyn gwireddu nifer o fendithion gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint, gan wella capasiti a gwydnwch, a chynyddu perthnasoedd gyda chyflenwyr. Daeth y cytundeb i ben ym mis Gorffennaf 2017 ac roedd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol wedi cytuno ar estyniad i'r trefniant i alluogi comisiynu archwiliad ar y cyd a adroddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mehefin 2018. Er fod yr adroddiad archwilio wedi bod yn feirniadol, roedd yn hanesyddol i raddau helaeth ac roedd nifer o'r materion wedi eu datrys yn dilyn penodiad y Rheolwr Gweithrediadau Cyfreithiol a Chaffael a oedd hefyd wedi cynnig sefydlogrwydd i'r uned. Roedd cynllun gweithredu wedi ei ddatblygu a rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am fesurau i wella materion llywodraethu oedd heb eu datrys ac annog ymrwymiad corfforaethol a gwleidyddol i'r gwasanaeth a oedd yn cynnwys cryfhau trefniadau adrodd, craffu a monitro; alinio strategaeth gaffael y ddau Gyngor, a mewnoli caffael ar y cyd o fewn diwylliant y ddau Gyngor ar draws pob lefel ac ar lefel wleidyddol. Nodwyd y llwyddwyd i barhau i gyflwyno'r gwasanaeth er mai dim ond chwarter nifer y gweithwyr fesul £1m o wariant a argymhellir gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru sydd yna. Roedd yr uned yn cynnwys swyddogion cymwys iawn yn gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau fod caffael yn

cael eu cynnwys yn llawer cynharwch gan olygu fod pob gwasanaeth yn fwy cyfarwydd â gofynion.

Cydnabu’r Cynghorydd Thompson-Hill fod angen rhagor o waith ond fod cynnydd cadarnhaol wedi ei wneud ac roedd buddion go iawn wedi eu cyflawni. Mewn ymateb i gwestiynau, roedd y Cynghorydd Thompson-Hill a’r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd -

- cadarnhawyd y byddai Archwilio Mewnol y cynhyrchu adroddiad dilynol yn rhoi manylion y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr.
  Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys dyddiadau targed ar gyfer cwblhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn a fyddai’n arwain at adroddiad dilynol pellach i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i sicrhau cydymffurfiad llawn a chwblhau’r cynllun gweithredu ac wedyn byddai trefniadau monitro ar gyfer y dyfodol yr uned yn cael eu cytuno arnynt.
- cadarnhau penderfyniad y Cabinet mewn perthynas â’r dewisiadau dros ddarparu gorfodi troseddu amgylcheddol ynghyd â chyfranogiad yr Uned Caffael Cydweithredol o fewn y broses honno – yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Caffael ar y Cyd, roedd cydweithwyr o Sir y Fflint wedi bod yn agored i drafodaethau yn y dyfodol ar y posibilrwydd o weithio ar y cyd isranbarthol.
- hysbyswyd nad oedd y feirniadaeth yn yr adroddiad yn ymwneud â maint yr uned na nifer y gweithwyr ond roedd yn canolbwyntio ar sicrhau fod pob gwasanaeth yn ystyried caffael cydweithredol ar y dechrau gyda chamau manwl i gyflawni'r nod honno
- eglurwyd, wrth ystyried arbedion a wireddir yn y dyfodol, er bod rhai arbedion yn hawdd i'w cyfrifo, roedd yn anodd cyfrifo arbedion caffael eraill ac roedd gwaith yn mynd yn ei flaen o ran sut i gyflawni'r manylyn hwnnw at ddibenion craffu a monitro yn y dyfodol
- rhoddwyd eglurhad o rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wrth sicrhau fod prosesau cywir ar waith ac y cyflawnir y cynllun gweithredu ac amlygwyd yr angen i sicrhau mecanwaith priodol ar gyfer monitro yn y dyfodol a chraffu ar arbedion a pherfformiad gan y pwyllgor craffu.
- dywedodd, o safbwynt strategaethau caffael, y cytunwyd ar gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol gyda’r ddau gyngor er bod rhai ffigyrau ar gyfer y trothwy rhagoriaeth yn wahanol er mwyn adlewyrchu gwahanol nodau ac amcanion y Cyngor, roedd hefyd mesuryddion perfformiad ar waith i fesur gwariant ar gyfer y ddwy ardal awdurdod lleol.

Cydnabu’r Arweinydd y problemau dechreuol yn dilyn yr uno ond amlygodd y buddion o safbwynt uned fwy hyfyw a rhagor o wydnwch staff. Credai mai’r trefniant cydweithredol oedd y ffordd ymlaen ac o ystyried y bendithion i’w gwireddu a'r sicrwydd a roddwyd o safbwynt camau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion a chyflwyno gwelliannau, roedd yn cefnogi'r argymhelliad.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a)* *yn ymrwymo i dair blynedd arall o Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir y Fflint er mwyn i Gyngor Sir Ddinbych gynnal gwasanaethau*

*caffael cydweithredol a fydd yn weithredol ar draws Sir Ddinbych a Sir y Fflint, a*

*(b)* *bod gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd awdurdod i gymeradwyo ac ymrwymo i ffurf briodol o gytundeb gyda Chyngor Sir y Fflint.*

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2018/19 oedd £194.418m (£189252m yn 2017/18)
- roedd amcanestyniad o orwariant o £1.164m ar gyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- rhoddwyd manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd gwerth £4.6m a gytunwyd arnynt gan gynnwys y rhai hynny a oedd eisoes wedi eu cyflawni gyda'r dybiaeth y byddai pob effeithlonrwydd/ arbedion yn cael eu cyflawni – byddai unrhyw eithriadau yn cael eu hadrodd i'r Cabinet lle bo angen
- amlygwyd risgiau ac amrywiadau cyfredol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparwyd y wybodaeth gyffredinol ddiweddaraf ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar lefel y gorwariant ar gyllidebau gwasanaethau a phryderon i'r perwyl hwnnw o ystyried symudiad ffigyrau canlyniad a ragolygwyd. Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno ar y defnydd o arian wrth gefn, tanwariant wedi'i ddwyn ymlaen, a rhyddhau arian at raid i helpu ariannu gorwariant mewn gwasanaethau. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y ffigyrau wedi eu cymell i raddau helaeth gan bwysau galw na ellid fod wedi ei ragweld ac y byddai'n gweithio gydag uwch arweinwyr ar fesurau tymor byr o fewn y flwyddyn i leihau gorwariant a byddai ymgynghori llawn gydag Aelodau Arweiniol ar effaith ehangach y mesurau hynny.

Amcangyfrifwyd ar hyn o bryd y byddai gorwariant o £728,000 ar Wasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol (adroddwyd £98,000 ym mis Medi) ac roedd prif bwyntiau'r drafodaeth yn cyfeirio at -

- **Cludiant i'r Ysgol –** er gwaethaf dyraniad ychwanegol o £300,000 yn dilyn gweithredu'r polisi cludiant diwygiedig, nodwyd pwysau ychwanegol; roedd y pwysau parhaus newydd ar gyfer 2018/19 yn dod i gyfanswm o £593,000 ac yn cael eu trafod ar hyn o bryd fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20 ymlaen.
  Cafwyd ychydig o drafodaeth ynghylch a fyddai'n well gosod y gyllideb hon o fewn y Gwasanaethau Addysg a Phlant er mwyn cael rhagor o eglurder ac atebolrwydd er ei fod yn bwysau a gydnabuwyd a oedd angen ei ddatrys lle bynnag y byddai'n cael ei osod. Eglurodd Swyddogion y rhesymeg y tu ôl i'r

safbwynt presennol o ystyried fod Addysg a Gwasanaethau Plant yn cynnal y broses o asesu i bennu a oedd plentyn yn gymwys i dderbyn cludiant i'r ysgol, ond roedd y trefniant comisiynu ar gyfer y rhai hynny a oedd yn gymwys ar gyfer cludiant i'r ysgol yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol oherwydd yr arbenigedd a'r sgiliau oedd eu hangen ar gyfer trafod y contractau ysgolion. Byddai Swyddogion yn cyfarfod i drafod prif achosion y gorwariant, ac wedi hynny byddai'n gyfle da i ystyried ble fyddai'r lle gorau i osod Cludiant i'r Ysgol.

- **Prosiectau Mawr -** mae hyn wedi bod yn broblem dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd y prif reswm ynghylch y diffyg incwm yn ymwneud â faint o waith oedd ai angen a'r ad-daliad a oedd yn dod gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Cynigiwyd y dylid ryddhau dyraniad cyllideb o £140,000 o arian at raid a ddaliwyd yn ganolog i leddfu pwysau yn barhaus a dylid cadw £159,000 fel arian wrth gefn i helpu cyllido'r pwysau mewn blynyddoedd i ddod, a'i ryddhau i helpu ariannu pwysau arall yn y gwasanaeth. Eglurwyd nad oedd y swm a fuddsoddwyd yn rhwydwaith priffyrdd Sir Ddinbych o reidrwydd yn ymwneud â'r gwaith a gynhyrchwyd drwy'r Asiantaeth Gefnffyrdd, o ystyried bod contractwyr allanol hefyd yn gwneud gwaith ar briffyrdd. Ychwanegodd y Cynghorydd Brian Jones fod incwm a gyllidebwyd wedi ei osod yn rhy uchel ac y byddai'n cael ei ddiwygio yn y flwyddyn ariannol nesaf i adlewyrchu'r gostyngiad
- **Strydwedd** – ymhelaethodd y Cynghorydd Brian Jones ar y gost o £200,000 a oedd ei angen i unioni mater gyda 'Tipiau a Etifeddwyd' er mwyn diwallu gofynion statudol
- **Gwastraff** – byddai'r pwysau yn 2018/19 yn cael ei ariannu o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Gwastraff ac roedd pwysau o £850,000 ar y gyllideb wedi ei gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20. Roedd Dyluniad Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu newydd wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau

Roedd hefyd rhywfaint o drafodaeth ar y setliad cyllideb dros dro ar gyfer Sir Ddinbych a'r effaith ar gronfeydd wrth gefn a chyllid gostyngol wrth symud ymlaen. Golygai'r setliad fod penderfyniadau anodd i'r Cyngor eu gwneud er mwyn cyflawni'r arbedion gofynnol a fyddai'n cael eu hystyried gan y Cabinet a'r Cyngor maes o law. Nodwyd fod pwysau pellach yn cael ei roi ar Lywodraeth Cymru drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Arweinwyr Cynghorau i drafod y pwysau cyllido a'r setliad ariannol ar gyfer llywodraeth leol. Cyfeiriwyd hefyd at Ddatganiad yr Hydref a gyhoeddwyd yn ddiweddar a dywedodd y Pennaeth Cyllid fod y ffigyrau pennawd wedi nodi y byddai adnoddau ychwanegol ar gyfer Cymru ond nid oeddem yn gwybod hyd yma a fyddai'n arwain at unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol.

Dyma rai o'r materion eraill a drafodwyd fel rhan o'r adroddiad cyllid -

- **Prosiectau Cyfalaf o Bwys -**

  **Ysgol Ffydd 3 – 16 y Rhyl –** eglurodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts a'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant gymhlethdodau ac anawsterau wrth recriwtio a'r broses ar gyfer penodi pennaeth ar gyfer yr ysgol a rhoddodd sicrwydd fod swyddogion yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Esgobaeth a'r

Corff Llywodraethu i sicrhau'r penodiad gorau ar gyfer yr ysgol a sicrhau fod y paratoadau ar gyfer agor yr ysgol newydd yn gadarn er mwyn cynnig y ddarpariaeth addysgol orau ar gyfer y disgyblion

**Datblygiad Harbwr y Rhyl –** o safbwynt y contract cynnal a chadw ar gyfer Pont y Ddraig, eglurwyd nad oedd cost lawn y trefniadau cynnal a chadw wedi eu cynnwys yn y prisiad gwreiddiol ar gyfer y bont o ystyried ei ddyluniad unigryw ac roedd angen darparu adnoddau ar ei gyfer ers hynny

**Glannau'r Rhyl a'r Parc Dŵr –** eglurwyd y rhesymeg dros adleoli'r Ganolfan Groeso, gan y byddai'n caniatáu gweithgarwch masnachol ar y Pentref Plant gwag ac yn ychwanegu gwerth at y Ganolfan Groeso drwy ei lleoli ar y cyd ag Amgueddfa'r Rhyl yng Ngorsaf Drenau'r Rhyl  Cydnabuwyd fod angen Canolfan Groeso yn y Rhyl a phresenoldeb corfforol a chredwyd y byddai dod â'r Ganolfan Groeso a'r Amgueddfa ynghyd yn gweddu ei gilydd ac yn ychwanegu gwerth at y ddau wasanaeth.  Darparwyd y Ganolfan Groeso ar y cyd gyda Thwristiaeth Gogledd Cymru a byddai'r math o ddarpariaeth yn cael ei ailfodelu a'i addasu yn sgil y symud

- **Crynodeb o Arbedion a Gytunwyd Arnynt** – Mynegodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor nifer o bryderon ynghylch yr arbedion a gytunwyd arnynt.
  Eglurwyd fod arbedion wedi eu cytuno'r llynedd ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2018/19 ac wedi eu hadrodd ar yr un fformat i'r Cabinet ers hynny.  Tybiwyd y byddai'r arbedion yn cael eu cyflawni.  Roedd paratoadau ar droed ar hyn o bryd ar gyfer arbedion y flwyddyn nesaf a byddai awgrymiadau ar gyfer arbedion posibl i'w darparu yn cael eu croesawu.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*

*(b) nodi a chytuno ar y defnydd o arian wrth gefn, tanwariant a ddygwyd ymlaen a rhyddhau arian at raid, er mwyn helpu i liniaru'r pwysau cyffredinol ar y gyllideb sy'n wynebu'r Cyngor.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau/ diwygiadau canlynol -

- Ail-lansio Rhaglen Adfywio'r Rhyl – symudwyd o fis Tachwedd i'r flwyddyn newydd
- Corff Cymeradwy Systemau Draenio Cynaliadwy – ychwanegwyd at fis Rhagfyr
- Adroddiadau Cyllideb a Chynllun Cyfalaf – i'w ychwanegu ar gyfer mis Ionawr / Chwefror

***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 8 FFRAMWAITH CONTRACT RHWYDWAITH TGCH YSGOLION

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad cyfrinachol yn ymwneud â chaffael rhwydweithiau TGCh ysgolion Sir Ddinbych.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am fwriad ysgolion i gaffael gwasanaethau TGCh o fframwaith contractau cystadleuol a fyddai’n creu marchnad gaeedig o gyflenwyr cymeradwy ac achrededig lle gallai ysgolion siopa'n ddiogel. Roedd TGCh Sir Ddinbych wedi bod yn rhan o’r broses a rhoddwyd eglurhad a chafwyd trafodaeth bellach ynghylch eu cyfranogiad posibl yn y dyfodol wrth ddarparu gwasanaethau drwy'r fframwaith honno. Roedd manylion y broses wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad ac ymatebodd yr Aelod Arweiniol a’r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant i gwestiynau i’r perwyl hwnnw ynghyd â’r gweithredoedd i liniaru’r risgiau a nodwyd, y gwahanol ddisgwyliadau a gofynion rhwng ysgolion a threfniadau monitro/ llywodraethu wrth symud ymlaen. Nodwyd fod caffael cydweithredol wedi ei ystyried ond o ystyried gwahanol ofynion ac amserlenni contractau presennol, nid oedd unrhyw gynghorau eraill wedi medru manteisio ar y caffael ar hyn o bryd.

Cydnabu’r Cabinet ffafriaeth yr ysgolion i gaffael gwasanaethau TGCh drwy fframwaith contract a chydnabuwyd bendithion y dull hwnnw o safbwynt cysondeb, sicrhau ansawdd a gwerth am arian. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet –*

*(a) yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, ac*

*(b) yn cytuno i’r fframwaith er mwyn i ysgolion gaffael Gwasanaethau TGCh gan gyflenwyr cymeradwy ac achrededig.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 a.m.